

Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Glannau Caernarfon: Deall Nodweddion Trefol

Cydnabyddiaeth

Wrth gynnal yr astudiaeth hon, mae Cadw wedi defnyddio gwaith a wnaed gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd yn 2005: *Ports and Harbours of Gwynedd: A Threat-Related Assessment*. Roedd y gwaith hwn, a wnaed ar ran Cadw, yn crynhoi datblygiad hanesyddol harbwr Caernarfon, a darparodd restr a map manwl o'r safleoedd yng nghyffiniau'r glannau. Nid atgynhychwyd y rhestr yn llawn yn yr adroddiad presennol, ond mae ar gael gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, a dylid cysylltu â hi am ragor o gyngor ar archeoleg yr ardal.

Cynnwys

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Datblygiad Hanesyddol

Hanes Trefol Cynnar

Castell a Thref Ganoloesol

Tir a Dŵr: Yr Economi Drefol

Dwy Afon a'r Môr

Y Tu Hwnt i'r Muriau

Tirwedd Hanesyddol

Y Dref Ganoloesol

Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg:
Peirianeg Sifil a Thwf Trefol

Nodweddion Adeiladu

5 Ardaloedd â Nodweddion

1 Y Promenâd (Y Cei Canoloesol)

2 Cei Banc a Doc Fictoria

3 Y Cei Llechi

4 Y Maes

5 Teras Segontiw a Thre'r Gof

6 Coed Helen

16 Glannau Seiont a Menai: Paramedrau Dylunio ar gyfer Ailddatblygu

19 Patrwm a Deunyddiau Dylunio

21 Datganiad Pwysigrwydd

Ffynonellau Dewisol

Mapiau

Ôl-nodion

Rhestr o Fapiau tudalennau 44–51

- 1 Pob Ardal â Nodweddion
- 2 Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau
Amgylcheddol Hanesyddol
- 3 Ardal y Promenâd
(Y Cei Canoloesol) (1)
- 4 Ardal Cei Banc a Doc Fictoria (2)

- 5 Ardal y Cei Llechi (3)
- 6 Ardal y Maes (4)
- 7 Teras Segontiw a Thre'r Gof (5)
- 8 Ardal Coed Helen (6)

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Nod nodweddu trefol yw disgrifio ac egluro cymeriad hanesyddol trefi i roi ffocws i natur unigryw leol ac i wasanaethu fel ffordd o reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cadwraeth ac adfywio cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.


Mae nodweddu trefol yn diffinio cymeriad hanesyddol unigryw trefi unigol, ac yn nodi'r amrywiaeth o nodweddion ynddynt, gan gydnabod bod y nodweddion hyn yn hanfodol i natur leol unigryw a brogarwch, ac yn ased o ran gwaith adfywio. Mae'n ystyried sut y caiff hanes tref ei fynegi yn ei chynllun a'i thirwedd, mewn ardaloedd o botensial archeolegol, ac yn ei

chymeriad archeolegol. Nid archwiliad o nodweddion yn unig yw'r arolwg hwn, ond ail-greu'r themâu a'r prosesau sydd wedi llunio'r dref.

Diben uniongyrchol yr astudiaeth hon yw llywio'r cynigion sy'n codi ar gyfer adnewyddu glannau Caernarfon, sy'n rhan allweddol o leoliad Safle Treftadaeth y Byd y castell a muriau'r dref. Felly mae'r astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar lannau Menai a Seiont, ynghyd â'r ardaloedd trefol cyfagos. Er mwyn deall yr ardaloedd hyn mewn cyd-destun, ystyriwyd hefyd gefndir hanesyddol y broses o sefydlu a datblygu'r dref yn gyffredinol. Bwriedir i'r astudiaeth hon fod yn llinell sylfaen ar gyfer gwaith cynllunio strategol yn ogystal â gwaith rheoli lleol.

Y Cei Llechi yw'r blaendir i'r castell wrth aber afon Seiont.





Datblygiad Hanesyddol

Mae gan Gaernarfon hanes trefol hir a nodedig. Roedd aneddiadau Rhufeinig a Chymreig yn y cyffiniau cyn sefydlu'r castell a'r dref ganoloesol. O'r man cychwyn hwn tyfodd diwylliant trefol sydd wedi parhau am nifer o ganrifoedd. Roedd darparu seilwaith economaidd dibynadwy yn allweddol i lwyddiant hirdymor y dref. Drwy gydol ei hanes, ac mewn amgylchiadau cyfnewidiol, bu'r glannau yn un o brif gonglfeini bywyd economaidd y dref.

Hanes Trefol Cynnar

'Ac wrth aber yr afon fe welai gaer fawr, y decaf a welsai dyn erioed. A gwelai borth y gaer yn agored, a daeth i'r gaer'.¹


Yr Etifeddiaeth Rufeinig

Ar gopa'r gefn rhwng afonydd Cadnant a Seiont, sefydlodd y Rhufeiniad gaer atodol Segontium tua 77 oc. Segontium oedd pencadlys ardal weinyddol fawr a oedd yn ddarostyngedig i Gaer, ac fe'i meddiannwyd tan ddiwedd y bedwaredd ganrif. Gellir esbonio'r hanes hir hwn o feddiannaeth yn rhannol oherwydd ei lleoliad strategol mewn ardal arfordirol ffrwythlon, ac efallai oherwydd cloddio cyfoeth mwynol yr ardal. I'r gorllewin o Segontium, ychydig uwchben afon Seiont, lle llifa'r afon yn y man agosaf i'r gaer, ceir ail safle Rhufeinig, sef Hen Waliau. Dyddiwyd yr caeadle caerog hwn i'r bedwaredd ganrif, a thwybiwyd mai storfa ydoedd. Darganfuwyd olion 'an immense wooden bridge'² ar draws afon Seiont ym 1817, y credir ei bod hefyd wedi'i hadeiladu gan y Rhufeiniaid, ychydig i fyny'r afon o Hen Waliau.

Gyferbyn: Y castell ar lan y dŵr lle mae afon Seiont yn llifo i mewn i Afon Menai.

Isod: Caer Rufeinig Segontium, gyda'r castell wrth aber yr afon y tu hwnt.





Y castell a'r dref gaerog, ar hyd y glannau ar bentir rhwng afonydd Seiont a Chadnant, fel y darluniwyd gan Samuel a Nathaniel Buck ym 1742

(The North West View of Caernarvon Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Er na chafodd bodolaeth anheddiad Rhufeinig yn agos i'r safle a ddewiswyd yn ddiweddarach ar gyfer tref Caernarfon fawr o effaith uniongyrchol ar dirwedd y dref, dylanwadodd ar ddiwylliant a hanes yr anheddiad diweddarach. Y cyfeiriad pendant cyntaf at anheddiad ar y draethlin oedd castell Hugh d'Avranches, Iarll Iorwg, a adeiladodd gastell tomen a beili yno ym 1090. Mewn testun o ddiwedd y ddeuddegfed ganrif (*Historia Gruffud vab Kenan [Hanes Gruffudd ap Cynan]*), nodwyd i'r castell hwn gael ei adeiladu yn hen ddinas yr ymerawdwr Cystennin.³ Er nad oedd castell Hugh d'Avranches wedi'i adeiladu yn llythrennol ar ben olion Segontium, rhoddodd y cysylltiad ymerodrol urddas a mawredd iddo, a gipiwyd yn ei dro gan y Cymry wrth adennill yr ardal o'r Normaniaid ym 1115. Awgrymir y gorffennol ymerodrol hwn hefyd yn eiconograffi castell Edward y Cyntaf. Coffawyd hynny hefyd wrth ailgladdu corff honedig Magnus Maximus ym 1283. Ceir traddodiad (nas ategir gan dystiolaeth archeolegol) fod Magnus Maximus wedi'i leoli yn Segontium fel cadlywydd rhanbarthol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif — ef oedd Maccsen Wledig y chwedl Gymraeg, tad Cystennin a Peblig; mae nifer o hen deuluoedd Cymru yn olrhain eu hachau yn ôl iddo.

Mae'n bosibl mai Iarll Iorwg oedd y cyntaf i ymgartrefu ger y glannau. Fodd bynnag, mae bron

yn sicr y byddai'r Rhufeiniaid wedi defnyddio (ac amddiffyn) y morffyrdd, ac yn sicr mae'n arwyddocaol bod Hen Waliau wedi'i lleoli yn union uwchben afon Seiont. Gallai Lôn y Cariadon, sy'n arwain i lawr tua'r afon o Lôn Parc, yn agos i gornel de-orllewinol y safle, hyd yn oed ddilyn llwybr Rhufeinig o Hen Waliau.

Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid, gallai cnewyllyn yr anheddiad fod wedi parhau i fod ar y tir uwch yng nghysgod y gaer, a gall fod yn arwyddocaol bod yr eglwys yn Llanbeblig wedi'i lleoli'n agos i Segontium. O ran yr eglwys, roedd tref ganoloesol ddiweddarach Caernarfon yn rhan o strwythur plwyfol cynharach, a pharhaodd i fod yn gapeliaeth o fewn plwyf Llanbeblig.

Anheddiad y Cymry

Byrhoedlog oedd anheddiad cyntaf y Normaniaid yma: pan adenillodd y Cymry yr ardal ym 1115, mae'n debygol iddynt feddiannu castell Hugh d'Avranches, ac yn sicr gwnaethant sefydlu anheddiad sifil bach gyda phorthladd a llys. Pan gyrhaeddodd swyddogion Edward y Cyntaf yr ardal ym 1283, daethant o hyd i lys yma, gyda gardd yn hen feili'r castell. Er y cadwyd y domen a'r beili unwaith eto — cafodd y domen ei

chynnwys yn rhan o'r castell Edwardaidd, gyda'r beili yn goroesi fel yr ardal a elwir bellach yn y Maes — sathrwyd gweddill anheddiad y Cymry dan draed y gormeswyr. Treuliodd ugain o ddynion bum diwrnod yn clirio pren tai a ddymchwelwyd i wneud lle ar gyfer amddiffynfeydd y dref newydd. Er mai prin a wyddom am anheddiad y Cymry, awgryma cyfeiriadau dogfennol y bu'n lle tra phwysig. Ym 1188, teithiodd Giraldus Cambrensis (Gerallt Gymro) drwy 'Caernarfon, hynny yw, y gaer yn Arfon'.⁴ Ym 1215, cyfeiriodd y bardd Prydydd y Moch at 'yg caer yn aruon' fel un o bedwar conglaen arglwyddiaeth Llywelyn Fawr dros Gymru.⁵ Ceid cyfeiriadau mynych at Gaernarfon wedi hynny mewn dogfennau sy'n gysylltiedig â thywysogion Gwynedd, ond ceid hefyd gyfeiriadau mewn ffynonellau Cymraeg at Gaer Abersein, sef trosiad Cymraeg o Segontium. Mae'r dras Gymreig hon, ar y cyd â'r gorffennol Rhufeinig ymerodrol, yn atseinio drwy hanes y dref ddiweddarach, oherwydd 'out of the ruins of this city rose the present town, justly the boast of North Wales'.⁶

Castell a Thref Ganoloesol

Cododd castell a thref Edwardaidd Caernarfon o ganlyniad i ymgyrch adeiladu gyflym a ddechreuwyd yn dilyn cwmp Llywelyn ap Gruffudd ym 1282, gan adael y tiroedd i'r gorllewin o afon Conwy yn agored i raib coron Lloegr. Aeth y gwaith ar y castell a'r dref rhagddo law yn llaw, ynghyd ag adeiladu'r cei a phwll y felin, sef congfeini economi drefol. Codwyd muriau'r dref yn ystod 1284–85. Amgaewyd ardal o 10 erw ganddynt, a gosodwyd rhwng 65 a 70 o fwrdeisi (pob un yn 80 x 60 troedfedd/24 x 18 metr o faint) oddi mewn iddynt erbyn 1287. O'r rhain, meddiannwyd 59 erbyn 1298, a 63 erbyn 1309. Heriwyd grym y goresgynwyr ym 1294, pan ddifrodwyd y castell a muriau'r dref yn ddifrifol yn ystod gwrthryfel Madog ap Llywelyn, ond dechreuwyd y gwaith atgyweirio ym 1295, a pharhaodd y gwaith o wella muriau'r dref, y bont, y cei a'r castell tan tua 1330.

Law yn llaw â'r gwaith ffisegol o adeiladu, sefydlwyd y fframweithiau cyfreithiol a gweinyddol ar gyfer y dref newydd. Derbyniodd Caernarfon siarter ym

1284: o dan delerau'r siarter, ac i annog anheddiad, rhoddwyd ymreolaeth weinyddol i fwrdeisiaid, gyda'r hawl i ddal tir yn rhydd drwy dirdaliadaeth bwrdaid, breintryddid rhag tollau a cholffarniad, a'r hawl i reoleiddio masnach yn y fwrdeistref. Fel hwb ychwanegol i'r dref, gorfodwyd pawb o fewn dalgylch o 8 milltir (13 km) i fasnachu yno.

Y nod o'r cychwyn oedd sefydlu Caernarfon fel prifddinas tywysogaeth gogledd Cymru (statws a barhaodd tan 1536). Lleolwyd y sefydliadau gweinyddol a masnachol priodol o fewn y dref, yn cynnwys swyddfa'r trysorlys (a leolwyd uwchben porth y dwyrain), a thŷ ynad gyda neuadd y sir uwchben (ger y gyffordd rhwng Pen Deitsh a Stryd y Jêl). O ran gweinyddu lleol, rhoddwyd yr hawl i'r bwrdeisiaid adeiladu neuadd y dref, a gwnaethant hynny ar y gyffordd rhwng y strydoedd a elwid wedi hynny yn Stryd y Farchnad a Stryd Fawr.

Tir a Dŵr: Yr Economi Drefol

Ffermydd a Marchnadoedd

Roedd angen economi ddichonadwy ar y dref newydd os oedd am ffynnu. Roedd gan y bwrdeisiaid dir yr oeddent yn byw arno o fewn y dref, ond fe'u cefnogwyd hefyd gan ddaliadau helaeth y tu allan i'r dref: cadwyd bron 1,500 o erwau ar eu cyfer, yn cynnwys pentrefan Llanbeblig a thiroedd eraill cyfagos. Roedd y rhan fwyaf o'r bwrdeisiaid yn ymwneud ag amaethyddiaeth — ym 1298, yn ôl rhestr rhenti'r flwyddyn honno, roedd pum bwrdeisiad allan o bob chwech yn dal rhywfaint o dir amaethyddol. Dengys y cofnodion iddynt gadw eu graen gwerthfawr o fewn muriau'r dref, ond iddynt gadw eu hanifeiliaid y tu allan. Llauer yn ddiweddarach, roedd mil o anifeiliaid a oedd yn eiddo i drigolion y dref ymysg yr ysbail a gipiwyd yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr. Fodd bynnag, nid oedd y dref yn hunangynhaliol — roedd hefyd angen trwyddedau ar y bwrdeisiaid i brynu graen o Ynys Môn ac Iwerddon ym 1316 a 1331, er enghraifft, ac roedd y dref yn ddiibynol iawn ar nwyddau a fewnforiwyd drwy gydol y Canol Oesoedd. Roedd y dref yn parhau i gynnal 'a brisk trade with London, Bristol, Liverpool and Ireland for the several necessities of life' ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif.⁷




Uchod: Saif y Maes, sef marchnad draddodiadol y dref, a sgwâr trefol ysbennnydd, yn union y tu allan i'r dref gaerog.

Gyferbyn: Y tair glan — y promenâd ar hyd Afon Menai, Doc Fictoria wrth aber afon Cadnant, a'r Cei Llechi ar afon Seiont.

Er bod muriau'r dref yn amgylchynu'r rhan fwyaf o adeiladau'r dref, o leiaf yn ystod y cyfnod cynnar, roedd economi'r dref yn dibynnu ar gynnal cydberthynas rhwng y tir a amgaewyd gan y muriau, a'r tir y tu hwnt iddynt. Yng Nghaernarfon, nid dim ond y tir amaethyddol cynhyrchiol oedd y tu allan i furiau'r dref, ond hefyd y farchnad ei hun. Awgryma dogfen rhent o 1298 fod gan y bwrdeisiaid stondinau y tu allan i'r muriau ar ddiwrnodau marchnad, a chytunir yn gyffredinol mai'r Maes (sef yr ardal a feddiannwyd yn flaenorol gan feili'r castell o'r unfed ganrif ar ddeg) oedd y farchnad wreiddiol. Yma, roedd gan fwrdeisiaid y rhyddid i fasnachu, gyda'i gilydd a chyda masnachwyr Seisnig eraill, ac roedd ganddynt y faint o adeiladu siopau a siediau er mwyn storio nwyddau yn ddiogel i'w gwerthu. Drwy dalu ffi, gallai estronwyr hefyd sefydlu neu logi stondinau i arddangos nwyddau.

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuodd y Maes gael statws newydd fel sgwâr ffurfiol — 'perhaps the largest and best square in the whole principality'.⁸ Yn y cyfamser, codwyd adeiladau marchnad newydd o fewn muriau'r dref. Erbyn 1813, 'a new market house has lately been erected with excellent shambles and stalls... over and under which are warerooms for housing grain and other unsold commodities'.⁹ Ym 1832, adeiladwyd marchnad yd newydd ar dir ystâd y Faenol — ar safle Plas Mawr ar Stryd y Plas. Yn yr un cyfnod, adeiladwyd llawer o siopau bach yn y dref.



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.



Uchod: Roedd y ceiau canoloesol — y promenâd yn ddiweddarach — yn dilyn glannau Menai islaw muriau'r dref.

Gyferbyn, dde uchaf: Nid oedd y ceiau cynnar yn ymestyn dim pellach na gwaelod Pen Deitsh, gydag angorfeydd anffurfiol wrth aber afon Seiont. (John Boydell, A North West View of Caernarvon Castle, 1749, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Dwy Afon a'r Môr

Saif y castell a'i dref mewn lleoliad strategol, wedi'i ffinio gan y môr a rhwng dwy afon — Seiont a Chadnant. Roedd y ddwy afon ac Afon Menai yn allweddol o ran datblygiad llwyddiannus y dref yn y cyfnod canoloesol ac ar ôl hynny. Cynigiodd glannau'r Fenai y cei cyntaf sy'n gysylltiedig â'r castell a'r dref sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg, ac roedd cei yma yn rhan o'r ymgyrch adeiladu wreiddiol. Fe'i hadeiladwyd i gynorthwyo'r gwaith adeiladu ei hun, gan ei gwneud yn bosibl mewnforio nifer fawr o ddeunyddiau. Ond roedd y cei hefyd yn sicrhau diogelwch y castell ac yn sicrhau y gellid cyflenwi nwyddau iddo, a thanategai economi'r dref newydd. Daeth mewnforion i Gaernarfon ar y môr, ac er mwyn cael budd ychwanegol o'r fasnach hon, codwyd toll ar bob llong a ddeuai i mewn i'r porthladd.

Yng nghynllun y dref, roedd porth y gorllewin yn arwain yn uniongyrchol i geiau a oedd yn arwain i'r gogledd a'r de, ar hyd glannau Menai. Mae'n bosibl y bu cilborth bach yn agos i sail Tŵr yr Eryr yn ogystal. Adeiladwyd y cei gwreiddiol gan ddefnyddio pridd a phren (mae'n debygol y

cloddiwyd y pridd o'r ffos i'r gogledd a'r dwyrain o'r castell), ond mae'n debyg i'r cei hwn gael ei ddinistrio yn ystod gwrthryfel Madog ym 1294. Y Goron oedd yn gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r cei, ac mae dogfennau'n cofnodi gwaith pellach ar y cei rhwng 1297 a 1301. Fe'i hailadeiladwyd gan ddefnyddio cerrig rywbyrd ar ôl 1316, yn ôl contract a gyfeiriodd at 300 troedfedd (91 metr) o furiau. Mewn gorchymyn pellach am waith atgyweirio ym 1322, nodwyd chwarel yn Aberpwl fel ffynhonnell y cerrig. Prin a wyddom am ffurf y cei cynnar hwn, ond ceir cofnodion am lifddor a chilborth allanol newydd wrth ochr Tŵr yr Eryr, a adeiladwyd ym 1434–35. Mae'n debygol mai hwn yw'r trefniant a ddangosir ar fap John Speed o 1610, sy'n dangos cilborth wrth ochr Tŵr yr Eryr (wrth odre Pen Deitsh), a phorth i'r cei o'r draethlin i'r de. Disodlwyd y llifddor hon yn y pendraw gan lithrfa, a ddangosir mewn rhai o'r printiadau o'r castell o'r ddeunawfed ganrif. Roedd atgyweiriadau 1538–39 yn nodedig ymysg y gwaith atgyweirio diweddarach, lle cymerwyd meini o'r hen frodyr ym Mangor.

Ar ryw adeg yn ystod y ddeunawfed ganrif (1736 o bosibl), adeiladwyd y Tolld y tu hwnt i furiau'r dref, ar y cei i'r gogledd o Dŵr yr Eryr. Erbyn



1852 roedd bellach yn westy — The Anglesey Arms — a chafodd ei ailfodelu a'i ymestyn at y diben hwnnw. Roedd disodli'r Tolldy yn arwydd o'r newidiadau yn swyddogaeth y cei gwreiddiol. Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, roedd ei amwynder fel promenâd yn dod i'r amlwg. Dywedodd Thomas Pennant ei fod 'the most beautiful walk alongside the Menai, and commands the most agreeable view'.¹⁰ Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, wrth i geiau gael eu datblygu yng nghysgod muriau'r castell ac ar hyd afon Seiont, enillodd ei blwyf fel promenâd yn bennaf, ac mae'n debyg iddo gael ei ailfodelu at y diben hwnnw — fe'i disgrifiwyd gan Edmund Hyde Hall fel 'a very handsome terrace, parapetted and protected against the sea'.¹¹ 'A wide terrace extending from the quay to the north end of the town walls, forms a most charming walk, the fashionable promenade, in fine weather, for all descriptions of people, who, while they inhale the salubrious breeze, may be agreeably amused by the moving varieties of the port'.¹²

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ymestyn y cei i'r gogledd, ac adeiladu pier neu lanfa, yn ôl




telerau Deddf a basiwyd ym 1809. Ni chwblhawyd y lanfa tan 1830 — efallai mai hwn oedd y cei a welodd Edmund Hyde Hall yn cael ei adeiladu ym 1809–11: 'as far as my observation has gone, its progress is very slow'.¹³ Roedd y cei newydd hwn yn rhan o broses lle sefydlwyd aberoedd yr afonydd i'r gogledd a'r de o'r dref fel y prif geiau gweithredol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Uchod: Glannau Menai, yn dangos y lanfa a adeiladwyd i'r gogledd o'r cei, fel y darluniwyd gan William Bartlett, tua 1840 (Carnarvon, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Dde: Yr harbwr newydd a'r llithrfa wrth aber afon Cadnant, a ddangosir ym map John Wood o'r dref, 1834 (Gwasanaeth Archifau Gwynedd).

Gyferbyn: Tan ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwaelod Pen Deitsh oedd terfyn yr angorfeydd ffurfiol, fel y dangosir yn y darlun hwn o'r castell gan Paul Sandby, tua 1778 (Caernarvon Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Afon Cadnant

O'r ddwy afon, Cadnant oedd â'r rôl amlycaf yn hanes cynnar y dref newydd. Roedd yn afon weithiol, a ddefnyddiwyd at ddiben melino yn ogystal â man glanio. Fel rhan o'r gwaith gwreiddiol a oedd yn gysylltiedig â'r castell a'r dref, crëwyd Pwll Melin y Brenin ym 1285 (i'r gogledd-ddwyrain o'r Maes), ac erbyn 1304–05, roedd yn gwasanaethu dwy felin ger porth y dwyrain.

Fel y ceiau ar hyd Afon Menai, y Goron oedd yn gyfrifol am gynnal a chadw harbwr Cadnant. Gyda'i gilydd, diwallodd y ceiau hyn anghenion y dref, a daeth cryn dipyn o fasnach fewnforio drwyddynt. Awgryma map John Speed o 1610 fod cei yn bodoli o hyd wrth aber afon Cadnant. Mae hefyd yn dangos graddau'r datblygiadau maesdrefol i'r gogledd-ddwyrain o'r dref erbyn dechrau'r ail ganrif ar bymtheg: rhydd hyn rywfaint o arwydd mai i'r cyfeiriad hwnnw yr oedd grym economaidd y dref wedi'i gyfeirio yn y cyfnod hwnnw. Mae darluniau o'r castell yn ystod y ddeunawfed ganrif hefyd yn dangos yn glir bod mur glanfa yn rhedeg ochr yn ochr â mur gogleddol y dref, ac yn cadarnhau bodolaeth maestref o faint sylweddol ar hyd glannau Cadnant.

Ond erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, roedd newidiadau mawr i ddaearyddiaeth y dyfroedd yn y rhan hon o'r dref wedi dechrau: caewyd aber afon Cadnant er mwyn adeiladu harbwr a llithrfa newydd at ddibenion adeiladu ac atgyweirio

llongau. Fe'u dangosir ar fap John Wood o 1834, ar y naill ochr a'r llall i aber afon Cadnant. Erbyn y cyfnod hwn, cyfyngwyd yr afon i sianel gul (neu hyd yn oed ceuffos), ac adeiladwyd yn helaeth ar ei glannau — dim ond enw'r stryd Cei Banc yn arwydd o fodolaeth yr hen afon fawr. Ar ddechrau'r 1860au, cyflwynwyd cynlluniau uchelgeisiol i ehangu'r harbwr, a ysgogwyd o bosibl gan agosrwydd Rheilffordd Caernarfon a Bangor a oedd, fel cangen o Reilffordd Caer a Chaerdybi, yn cysylltu'r dref â'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach. Dechreuwyd adeiladu doc newydd — New Basin — ym 1868, a chwblhawyd y gwaith ym 1875. Erbyn 1888 roedd pwll y felin hefyd wedi diflannu'n llwyr, ac roedd Cadnant ond i'w gweld yn achlysurol i'r gogledd o Stryd William ac wrth ochr Lôn y Felin, cyn llifo'n arwahanol i'r New Basin (sef Doc Fictoria yn ddiweddarach).


Afon Seiont

Mewn delweddau o'r ddeunawfed ganrif, gwelir llongau wedi'u hangori wrth aber llydan afon Seiont. Mae'n amlwg o'r delweddau hyn, ac o luniau ac ysgythriadau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a oedd yn ffafrio golygfa o'r castell o'r de, nad oedd unrhyw fan glanio ffurfiol ar afon Seiont. Taniwyd pwysau i ddatblygu ar yr ochr hon o'r dref gan weithgarwch diwydiannol mewn mannau eraill: yr amlycaf o'r rhain oedd twf cyflym y diwydiant chwarela llechi, a oedd yn awchu am gyfleusterau



porthladd. Sefydlodd ystadau'r Faenol a'r Penrhyn borthladdoedd yn y Felinheli a'r Penrhyn, ond roedd Caernarfon yn fwy addas at ddibenion yr ardaloedd chwarela annibynnol ymhellach i'r gorllewin. Roedd twf cyflym mentrau chwarela yn Nyffryn Nantlle yn galw am gyfleusterau porthladd a allai ymdrin â symiau mawr o ddeunyddiau swmpus. Roedd yn hawdd cyrraedd glan ddwyreiniol afon Seiont o'r de-ddwyrain, ac roedd yn cynnig digonedd o le heb ddefnyddwyr eraill. Ym 1793, cafwyd Deddf Seneddol at ddiben 'enlarging, deepening, cleansing, improving the harbour of Caernarvon'.¹⁴ Yn ogystal â'r gwelliannau i afon Cadnant, roedd hyn hefyd yn cynnwys gwaith i ddyfnhau sianel afon Seiont, gan gynyddu'r lle a oedd ar gael ar gyfer angorfeydd.

Mae'n debygol yr adeiladwyd y strwythurau ffurfiol cyntaf ar hyd afon Seiont ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac erbyn hynny mae ysgythriadau hefyd yn dangos glanfa wrth odre Tŵr yr Eryr y castell. Mae'n debygol y dechreuwyd y gwaith o adeiladu'r Cei Llechi ei hun tua 1803, gyda gwelliannau pellach tua 1809. Dilynwyd hyn gan waith gwella arall: ym 1817 symudwyd clawdd pridd ger y Maes, yn rhannol drwy danysgrifiad ac yn rhannol ar draul



y gorfforaeth a'r plwyf, a gyflogodd y tlodion i symud y pridd i wella'r cei. Erbyn 1834, roedd y glannau, mor bell â'r safle a feddiannwyd yn ddiweddarach gan Waith Haearn yr Union, wedi'u datblygu fel glanfeydd, ac adeiladwyd mwy o lanfeydd ymhellach i fyny'r afon yn y blynyddoedd dilynol.

Roedd y ceiau yn ymestyn o dan Dŵr yr Eryr ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Thomas Girtin, Caernarvon Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Uchod: Y Cei Llechi — glannau gweithiol islaw muriau'r castell ac ar hyd afon Seiont.

Gyferbyn, dde uchaf: Y rheilffordd a dynnid gan geffylau a gludai lechi o'r chwareli i'r cei, fel y darluniwyd gan David Cox, tua 1840 (Caernarvon, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Gyferbyn, dde isaf: Maestref boblog ar lan ogledd-ddwyreiniol afon Cadnant, fel y darluniwyd gan Samuel a Nathaniel Buck ym 1742 (The North West View of Caernarvon Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Lleolwyd y Cei Llechi i fod yn gyfleus ar gyfer y gefnwlad, yn hytrach na'r dref ei hun, ac roedd mynediad uniongyrchol o'r ardaloedd chwarela yn hanfodol. I ddechrau cludwyd llechi gan ddefnyddio certi, ond wrth i nifer y llechi gynyddu, cynyddodd y galwadau am ddull rhatach a mwy effeithlon o'u cludo. Ym 1813, cyfarfu grŵp o berchenogion chwarelau i ystyried gwneud cais am Ddeddf Seneddol ar gyfer 'an iron tram or railway from their respective quarries to the Port of Caernarvon, for the purpose of carrying their slate to market to avoid the present exorbitant prices paid for carriage by carts'.¹⁵ Cafwyd Deddf ar gyfer y cynllun hwn o'r diwedd ym 1825, ac agorodd Rheilffordd Nantlle ym 1828. Roedd ganddo hanes brith, ac yn y pendraw fe'i disodlwyd gan Reilffordd Sir Gaernarfon, a agorwyd ym 1862. Cysylltwyd y rheilffordd hon yn ei thro â Rheilffordd Caernarfon a Bangor, a gwblhawyd ym 1852, drwy dwnnel o dan y dref, a gloddiwyd ym 1869.


Roedd y Cei Llechi, a gysylltwyd â'r chwareli gan y rheilffordd, yn addas iawn ar gyfer swyddogaeth

arbenigol, er yn ymarferol ni chyfyngwyd ar ei defnydd i'r fasnach llechi yn unig. Rhoddwyd hwb i dwf y dref gan ddiwydiant hefyd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chafwyd mwy o alw am fasnach gyffredinol yn sgîl hyn. Fodd bynnag, roedd yn well ymdrin â mewnfurion ar ochr orllewinol y dref, ar hyd Afon Menai, yn union fel y gwnaed yn y cyfnod canoloesol. Hon oedd yr ardal lle canolbwyntiodd Ymddiriedolaeth yr Harbwr ar y gwaith o ddatblygu cyfleusterau harbwr cyffredinol drwy adeiladu'r New Basin.

Y Tu Hwnt i'r Muriau


'The town was originally contained within its present walls, but the suburbs are become of greater extent than the town'.¹⁶

Rhannwyd Caernarfon gan ei muriau yn ddwy diriogaeth wahanol, ac er y cyfyngwyd y rhan



fwyaf o'r adeiladau i'r 10 erw o fewn y muriau, roedd rhywfaint o ddatblygu y tu hwnt iddynt. Gellir casglu o gyfnod cynnar iawn mai prin oedd yr adeiladu y tu hwnt i'r muriau, gan mai dyma ble y lleolwyd melinau'r dref. Daw'r cofnodion pendant cyntaf am faestrefi o'r adroddiadau ar wrthryfel Owain Glyndŵr, pan ddinistriwyd tua 60 o dai. Fodd bynnag, erbyn i Speed lunio ei fap o'r dref ym 1610, ceid datblygu helaeth yn ardaloedd modern Stryd Bangor, Penrallt a Lôn y Felin, yn ogystal ag ar hyd y ffordd i Lanbeblig. Dinistriwyd y maestrefi unwaith eto yn ystod y rhyfel cartref, ond fe'u hailsefydlwyd erbyn canol y ddeunawfed ganrif. Mae darlun o *The North West View of Caernarvon Castle* gan Samuel a Nathaniel Buck yn dangos yn glir bod maestref boblog ar lan ogledd-ddwyreiniol afon Cadnant, tra dengys golygfa John Boydell (tudalen 13) waith adeiladu ar hyd y ffordd i Lanbeblig a Phenrallt.

Dim ond yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda thwf trefol cyflym a ysgogwyd yn bennaf gan chwarela yng nghefnwlad y dref, y gwnaed



ymdrechion i newid y berthynas rhwng y rhannau o'r dref i'r naill ochr a'r llall o'r muriau. Ffurfiwyd pyrth newydd yn y muriau — Porth yr Eglwys ym 1812 a Phorth Stryd y Farchnad ym 1828–30. Caewyd porth Twll yn y Wal, a gwnaed bwlich yn y wal ar ben dwyreiniol Pen Deitsh, er mwyn cysylltu'r dref â'r Maes.

Yr yr un cyfnod, trawsnewidiwyd y Maes: 'what was called the Maes, near the castle, long a nuisance to the place, now forms the site of a handsome row of buildings'.¹⁷ Dyma oedd tarddiad y teras ar ochr ddwyreiniol y sgwâr. Dilynwyd hyn gan waith pellach, yn cynnwys symud clawdd pridd er mwyn gwella'r olygfa o'r teras hwn, a gwella'r cei ar yr un pryd. Efallai mai hyn a fraenarodd y ffordd ar gyfer datblygiadau hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol yma, sef y Castle Hotel a'i deras, a adeiladwyd erbyn 1834.

Parhaodd y dref i ehangu mewn prosiectau adeiladu dilynol drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel y gwelwyd, sianelwyd afon

Cadnant i mewn i geuffos ac adeiladwyd ar ei phen, ac yn y pendraw gorchuddiwyd pwll segur y felin gan dai. Yn y cyfamser, ar ochr arall y dref, roedd Teras Segontium eisoes i'w weld ar rap o 1810, a gwerthwyd ardal i'r de o Ben y Graig — o'r enw Caemaesglas — at ddibenion adeiladu ym 1824. Ar y cyfan cyflawnwyd gwaith datblygu gan unigolion preifat gan ddefnyddio arian a godwyd gan glybiau arian a chlybiau adeiladu. Mae'n debygol mai hwn oedd y tro cyntaf i'r dref ehangu i'r tir amaethyddol o'i hamgylch mewn modd systematig. Cynyddodd y broses o ehangu i'r fath raddau fel bod y maestrefi yn fwy o faint na'r dref gaerog erbyn 1890.

Ar yr un pryd, nid oedd y dref gaerog ei hun yn gallu gwrthsefyll newidiadau. Dechreuwyd prosiectau adeiladu sylweddol. Roedd rhai o'r rhain yn rhai dinesig - neuadd y sir a'r marchnadoedd — ac roedd eraill yn rhai preifat. Ond mae gwedd bresennol y dref i raddau helaeth o ganlyniad i'r fenter hon.

Y Maes — marchnad ganoloesol a drawsffurfiwyd i fod yn sgwâr trefol ffurfiol, a ddarluniwyd gan W. Wood ym 1850 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).




Tirwedd Hanesyddol

Y Dref Ganoloesol

Roedd tirwedd naturiol y safle a ddewiswyd i adeiladu Castell a thref Caernarfon yn cynnig safle amddiffynadwy dramatig. Wedi'i ffinio i'r gorllewin gan Afon Menai, roedd y safle yn benrhyn ar lain gul o dir rhwng dwy afon. Roedd afon Seiont yn ffurfio ffin naturiol i'r de, lle y llifai heibio i furiau'r castell nes adeiladu glanfeydd yma ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif/dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd afon Cadnant i'r gogledd a'r dwyrain: fe'i rhychwantwyd gan bont a arweiniai at borth dwyreiniol y dref, ac roedd ei chwm cul yn cynnig cyfle i ddefnyddio grym dŵr ar gyfer melinau, a rhwystr amddiffynnol.

Porth y dwyrain oedd prif fynedfa'r dref, wedi'i leoli ar un pen o'r brif stryd drwy'r dref. Heblaw am y cilborth bach a oedd yn caniatáu mynediad i'r Maes, hon oedd yr unig fynedfa i'r dref o ochr y tir. Ar ochr arall y brif stryd, arweiniai porth y gorllewin at y ceiau ar hyd glannau Menai. Er i'r ceiau gael eu hatgyweirio, ac iddynt hefyd gael eu hailadeiladu i ffurfio promenâd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'u hehangu yn y pen gogleddol i gysylltu â'r New Basin, mae'n debygol, fodd bynnag, fod gwaith maen canoloesol i'w weld o hyd o fewn strwythur presennol y promenâd.

Cynlluniwyd y dref yn unol â chynllun grid rheolaidd, gyda'r brif stryd wedi'i rhannu gan gyfres o dair stryd groes, gan rannu'r ardal yn wyth adran i bob pwrpas. Gosodwyd bwrdeisi



Mae cynllun John Speed o 1610 yn cofnodi cynllun y dref ganoloesol (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Map John Wood o'r dref
ym 1834 (Gwasanaeth
Archifau Gwynedd).



o fewn y rhain yn eu tro. Dengys cynllun Speed o'r dref ym 1610 fod adeiladau'n llenwi'r rhan fwyaf o'r strydoedd hyn, ac eithrio'r bloc gogledd-orllewinol, nad oedd wedi'i ddatblygu rhyw lawer. Roedd prif fynedfa'r castell ar ben deheuol y stryd ganolog a oedd yn rhannu'r brif stryd. Mae'r cynllun hwn wedi goroesi'n rhyfeddol o dda.

Er i'r anheddiad blaenorol ddiflannu er mwyn creu'r dref gaerog, cadwyd y domen a beili Normanaidd, a adfeddwyd gan y Cymry ym 1115. Gwnaed y domen yn rhan o'r castell, a daeth y beili yn y Maes, gan weithredu fel prif farchnad y dref newydd.

Un o'r prif brosiectau peirianeg a oedd yn gysylltiedig â chynllunio'r dref newydd oedd creu pwll y felin yng nghwm Cadnant. Gwyddom y cloddwyd hwn ym 1285, a cheir cyfeiriadau yn y cofnodion dogfennol at atgyweirio'r argae ac adeiladu pont. Goroesodd Pwll Melin y Brenin tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond rhoddwyd y gorau i'w ddefnyddio, ac adeiladwyd drosto, fwy na thebyg ar ôl 1869, pan adeiladwyd y rheilffordd yn agos i'r argae. Roedd wedi meddiannu'r safle rhwng Pool Hill a Pool Side. Mae'r Bont Bridd yn dilyn llinell yr argae, ac mae un o fwâu'r bont wreiddiol i'w weld o hyd o dan y gyffordd rhwng y Bont Bridd a Pool Hill.




Y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Peirianeg Sifil a Thwf Trefol

Erbyn y 1830au ni defnyddiwyd afon Cadnant at ei phrif ddiben fel afon weithiol. Adeiladu lliithrfa a harbwr ar draws ei haber ym 1830 oedd dechrau proses a arweiniodd yn y pendraw at ffurfio Doc Fictoria (sef New Basin yn wreiddiol), a wnaeth symud y glannau gweithredol i lannau'r Fenai. Yn afraid i bob pwrpas, adeiladwyd dros gwrs afon Cadnant. Hon bellach yw'r ardal rhwng Cei Banc

a Glan Ucha (Crown Street gynt). Felly collwyd unrhyw ymdeimlad o'r dref yn meddiannu penrhyn rhwng dwy afon.

Cuddiwyd olion olaf y penrhyn pan adeiladwyd Doc Fictoria ym 1868. Ar fap John Wood o 1834 dengys fod y draethlin i'r gogledd o'r dref yn dilyn y llwybr a gynrychiolir bellach gan Gei Banc a Ffordd Balaclafa, gyda dim ond y lliithrfa a mur yr harbwr yn ymestyn y tu hwnt iddi i'r Fenai. Cynhwyswyd yr ardal i'r gogledd-orllewin o'r llinell hon fel rhan o'r broses o adeiladu Doc Fictoria, gan lenwi'r bwlch rhwng y penrhyn lle adeiladwyd y dref, a'r draethlin ymhellach i'r gogledd.

Y New Basin ac ymyl y cei, a achosodd newid sylweddol i'r draethlin i'r gogledd o'r dref — Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans, 1888 (1:2,500).




Atgyfnerthodd y Cei Llechi lannau anffurfiol afon Seiont ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Henry Gastineau, Caernarvon Castle, tua 1830–40, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Gyferbyn: Y dref a'i cheiau ym 1888, Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (1:2,500).

Yn y cyfamser, ar afon Seiont, dechreuwyd gwneud rhagor o waith peirianeg ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ychwanegwyd at y draethlin yma drwy adeiladu'r Cei Llechi, ac wrth i'r ceiau gael eu hadeiladu o dan furiau'r castell, sefydlwyd rhodfa ddi-dor am y tro cyntaf. Defnyddiwyd pridd a gymerwyd o glawdd garw yn ardal y Maes ym 1817 i wella'r Cei Llechi. Dengys printiadau a darluniau cynnar lethr o dir garw wrth ochr y castell, ac mae'n debygol mai'r broses hon o symud pridd a greodd ffordd fynedfa fwy hydryn o'r dref drwy'r Maes i'r ceiau newydd. Roedd hefyd o fudd i'r broses o ddatblygu'r Maes fel sgwâr ffurfiol, a agorwyd i'r dref drwy dorri bwllch drwy'r mur ar ben dwyreiniol Pen Deitsh. Yn ei dro, daeth datblygu y tu hwnt i'r Maes yn bosiblwydd deniadol, a pharatowyd cynlluniau ffurfiol i ddatblygu ardal o gaeau ym 1824.

Mae Teras Segontiw m a'r strydoedd y tu ôl (Tre'r Gof) yn enghraifft bwysig o ddatblygiad cynlluniedig, ac maent yn symbol o hyder newydd yn ffyniant y dref.

Yn wahanol i deras y Castle Hotel, a oedd yn wynebu'r dref, edrychai Teras Segontiw m dros yr afon, er ei fod wedi'i wahanu oddi wrth ochr y cei gan lethr serth naturiol. Mae'n debygol mai dim ond pan ddisodlwyd Rheilffordd Nantlle gan Reilffordd Sir Gaernarfon yr oedd angen cynnal gwaith peirianeg sylweddol yma: adeiladwyd y wal gynhaliol uchel fel rhan o'r gwaith o adeiladu'r rheilffordd, a wyrodd o lwybr yr hen reilffordd o dan deras Segontiw m, gan fynd o dan y Maes mewn twnnel, a mynd islaw'r Bont Bridd a Stryd Bangor cyn ymuno â llinell leol Caernarfon o Reilffordd Caer-Caergybi i'r gogledd-ddwyrain o'r dref.



Nodweddion Adeiladu

Adeiladau bach mewn arddulliau gwahanol ar y Cei Llechi.



Pensaernïaeth fel arddangosfa yn hen swyddfeydd Gwaith Haearn yr Union.



Dde: Ffurfioldeb a gorffeniad cain yn Swyddfeydd yr Harbwr.



Dde pellaf: Tai o feintiau gwahanol.

Mae ardaloedd y glannau i bob pwrpas yn fannau agored a grëwyd fel cyfres o lanfeydd a cheiau. Adeiladwyd y ceiau at ddiben hollol ymarferol, ac mae'r caregwaith yn frith o waith adeiladu ac atgyweirio o ddyddiadau gwahanol. Adeiladau gwaith yw'r strwythurau a gysylltwyd agosaf â hwy, sef warysau, gweithdai neu swyddfeydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i draddodiad diwydiannol cynhenid, ond gyda ffurfiau a gorffeniadau amrywiol sy'n adlewyrchu eu diben a'u statws gwreiddiol. Yn baradocsaidd ar yr olwg gyntaf, ymddengys mai rhai o'r adeiladau lleiaf (y tu ôl i Swyddfa'r Harbwr) a orffennwyd gywreiniad — gan iddynt gael eu hadeiladu i'w harddangos gan y cwmnïau llechi a ddefnyddiodd y Cei Llechi. Mewn man arall, gellir gweld defnydd tebyg o fanylion pensaernïol ar hen safle Gwaith Haearn yr Union. I'r gwrthwyneb, adeiladwyd y warysau i fod yn storfeydd cadarn — maent wedi'u hadeiladu'n gadarn ond yn ddiaddurn.

Gan edrych dros y Cei Llechi, mae'r datblygiad preswyl wrth ochr y Maes ac yn y strydoedd y tu hwnt iddo yn arwydd o ffyniant newydd y dref wrth iddi ehangu yn negawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir hierarchaeth glir yma, gyda'r tai blaen o statws uwch na'r tai hynny yn y strydoedd y tu ôl.

Trafodir yr amrywiaeth eang yng nghymeriad yr adeiladau yn fanylach ym mhob un o'r ardaloedd â nodweddion a nodir isod.



Ardaloedd â Nodweddion

1 Y Promenâd (Y Cei Canoloesol)

Cefndir Hanesyddol

Dilyna'r promenâd — o'r porth ar waelod Pen Deitsh i ongl ogledd-orllewinol mur y dref — lwybr y cei canoloesol, a adeiladwyd fel rhan annatod o gastell a thref Edward y Cyntaf ym 1283–85. Mae'n bosibl bod harbwr anheddiad y Cymry a ragflaenodd y dref Edwardaidd hefyd yn meddiannu'r safle hwn. Adeiladwyd y cei Edwardaidd gwreiddiol o bren, ond fe'i hailadeiladwyd gan ddefnyddio cerrig ar ôl iddo gael ei ddinistrio mewn gwrthryfel ym 1290–91. Ceir nifer o gyfeiriadau at ei atgyweirio wedi

hynny, yn cynnwys un cyfeiriad at ddefnyddio cerrig a gymerwyd o'r hen frodordy ym Mangor ym 1535. Roedd gan y cei un brif fynedfa o ochr y tir drwy borth gorllewinol y dref. Roedd hefyd gilborth bach ar waelod Pen Deitsh, er efallai nad agorwyd hwn tan 1434–35, pan fo cofnodion yn cyfeirio at ddefnyddio pren a cherrig ar gyfer llifddor a chilborth newydd. Dengys map Speed o 1610 lifddor ar ben deheuol y cei, ond dymchwelwyd hon erbyn canol y ddeunawfed ganrif, ac fe'i disodlwyd gan lithrfa. Adeiladwyd glanfa fach yma hefyd, fwy na thebyg pan sefydlwyd fferi draw i Goed Helen ym 1822. Mae'r ddwy i'w gweld o hyd, er iddynt gael eu hatgyweirio neu eu hailadeiladu'n rhannol.

*Y lanfa hon sy'n dynodi
terfyn y cei canoloesol—
ni chrëwyd y rhodfa
ddi-dor islaw muriau'r
castell tan ddechrau'r
bedwaredd ganrif
ar bymtheg.*





Y cei gwreiddiol fel y darluniwyd gan John Boydell ym 1749 (A North West View of Caernarvon Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd pwyslais masnach yn symud i'r Cei Llechi a'r harbwr gwell wrth aber Cadnant. O ganlyniad uniongyrchol, cafodd y ceiau gwreiddiol rôl newydd fel promenâd — sef atyniad allweddol i ymwelwyr â'r dref. Ailadeiladwyd y ceiau at y diben hwn, a chyfeiria disgrifiad o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg at y waliau canllaw fel amddiffyniad rhag y môr.

Hefyd, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ehangwyd y cei gwreiddiol i'r gogledd a'r de, gan greu rhodfa ddi-dor islaw'r castell a muriau'r dref yn y pendraw. Mae printiadau a darluniau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dangos ceiau o dan Dŵr yr Eryr y castell, ac wrth ddatblygu'r Cei Llechi datblygwyd cyswllt i'r ceiau

gwreiddiol hefyd. Pan adeiladwyd y New Basin neu Doc Fictoria ym 1868–74, ehangwyd pen gogleddol y cei.

Mae darlun o *A North West View of Caernarvon Castle* gan John Boydell ym 1749 yn dangos y Tolldy ychydig i'r gogledd o'r cilborth ar waelod Pen Deitsh. Roedd iard gaeedig y tu ôl iddo, hyd at dŵr cyntaf muriau'r dref. Disodlwyd y Tolldy gan yr Anglesey Arms erbyn 1852, ond mae'n debygol bod wal yr iard yn perthyn i'w ragflaenydd. Hefyd dangosodd Boydell glwstwr o adeiladau bach ar hyd y mur yn union i'r gogledd o Dŵr yr Eryr, sydd hefyd i'w gweld mewn printiadau a darluniau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Goroesodd yr adeiladau hyn tan yr ugeinfed ganrif.

Potensial Archeolegol

Mae'n bosibl bod y promenâd yn cynnwys olion y cei canoloesol, ac mae'r pen deheuol, lle lleolwyd cilborth a llifddor gynt, yn ardal o ddiddordeb penodol. Ni chanfu gwaith archeolegol mewn mannau eraill ar y promenâd yn 2006 unrhyw ddyddodion canoloesol, ond datgelodd dystiolaeth yn ymwneud ag adeiladu'r cei yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac â'r technegau adeiladu a ddefnyddiwyd yn sylfeini mur y dref.

Nodweddion Adeiladu

Gellir olrhain cyfnodau gwahanol yn y gwaith o ddatblygu neu atgyweirio'r cei mewn mathau gwahanol o garegwaith — yn ardal Tŵr yr Eryr, er enghraifft, mae gwaith maen ag wyneb o graig yn awgrymu gwaith ailadeiladu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyferbynna hyn â charegwaith y llithrfa a'r lanfa gynharach, y mae gan y ddwy ohonynt arwynebau cerrig ar hap â nodweddion cynhenid da.

Ailfodelwyd ac ehangwyd yr Anglesey Arms ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda ffenestri mawr yr ystafelloedd cynadledda yn edrych dros y glannau, ond gall ymgorffori rhai elfennau o'r Tolldy o'r ddeunawfed ganrif a'i rhagflaenodd. Adeiladwyd wal derfyn ei iard gan ddefnyddio caregwaith garw, ac mae bron yn sicr bod hyn yn goroesi o gyfnod y Tolldy.

2 Cei Banc a Doc Fictoria

Cefndir Hanesyddol

Mae'n debygol i aber afon Cadnant gael ei datblygu fel glanfa o ddyddiau cynnar tref Edward y Cyntaf. Gall fod hyd yn oed yn hŷn na hynny, gan y gwyddom i anheddiad cynharach y Cymry gynnwys porthladd, er nad oes sicrwydd ynghylch ei union leoliad. Prin a wyddom am y lanfa gynnar hon, er fe'i dangosir yn glir mewn lluniau o'r castell o'r ddeunawfed ganrif. Daeth y defnydd ohoni i ben i bob pwrpas pan adeiladwyd harbwr a llithrfa newydd ar draws aber afon Cadnant ym 1830. Sianelwyd yr afon i geuffos, ar yr un adeg fwy na thebyg, ac adeiladwyd ar ben yr hen lanfeydd. Mae Cei Banc a Glan Ucha yn dilyn glannau afon Cadnant.



Glanfa a llithrfa wrth derfyn y cei canoloesol.



Manylion swyddogaethol cadarn ym muriau'r cei.



Mae Cei Banc yn dynodi llwybr afon Cadnant, a sianelwyd i geuffos ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dde: Doc Fictoria, ar dir adferedig i'r gogledd-ddwyrain o'r dociau.

Dde pellaf: Un o'r caeadleoedd sy'n nodweddiadol o ddatblygiadau ar hyd Doc Fictoria.



Dde pellaf: Warysau ac adeiladau eraill a aliniwyd yn nodweddiadol ar ongl sgwâr i'r dociau.

Yr harbwr a'r llythrafa ym 1830 oedd man cychwyn gwaith datblygu sylweddol ar yr ochr hon o'r dref, lle ceid y ddwy fantais o le a mynediad uniongyrchol i'r Fenai ar gyfer y llongau mawr a oedd yn gysylltiedig â masnach arfordirol. Roedd adeiladu'r New Basin — Doc Fictoria yn ddiweddarach — rhwng 1868 a 1874 yn ymyriad mawr â thirwedd yr ardal. Law yn llaw ag adeiladu'r doc ei hun, adferwyd ardal fawr o'r glannau (i'r naill ochr a'r llall o'r llythrafa o'r 1830au, ac i'r gogledd-ddwyrain o'r basn) ac fe'i datblygwyd fel ierdydd cychod a warysau ar gyfer y doc newydd. Roedd gorsaf derfynol llinell Caernarfon o reilffordd Caer-Caergybi i'r gogledd-ddwyrain o'r ardal hon, ac mae'n debygol i'w dyfodiad ym 1852 hybu datblygiad y dociau.

Ehangwyd yr ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r dociau drwy waith adfer pellach rhwng 1888 a 1900, a datblygwyd Melinau Brawd Fictoria yn y cyfnod hwn. Dymchwelwyd y melinau yn ddiweddarach, ac ailddatblygwyd y safle yn ddiweddar at ddefnydd preswyl a masnachol.

Potensial Archeolegol

Er na ddylid colli cyfleoedd i gofnodi strwythurau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a adeiladwyd fel rhan o Doc Fictoria a'i ragflaenydd sy'n dyddio o 1830, lleolir prif ganolbwynt archeolegol yr ardal hon ar hyd afon Cadnant, lle y caiff unrhyw olion cynnar eu lleoli.

Nodweddion Adeiladu

Wrth greu Doc Fictoria, sefydlwyd cyfres o gaeadloedd, yn yr ardal rhwng y basn a Ffordd Balaclafa. Roedd un o'r caeadleoedd hyn yn cynnwys y llythrafa a oedd wedi goroesi ers y datblygiadau cynharach ym 1830. Yn nodweddiadol,



amgaeir y caeadleoedd hyn — a oedd yn eiddo i nifer o unigolion ac a weithredwyd gan nifer ohonynt — gan waliau terfyn o gerrig garw, a lleolir adeiladau ar eu cyrion.

Mae'r doc sych (ar safle llythrafa 1830) yn enghraifft dda o un o'r caeadleoedd hyn. Mae porth iddo o Ffordd Balaclafa, gydag adeilad swyddfa bach yn y gornel (y mae gan ei tho clip lechi anarferol o fawr). Mae gan adeilad mawr o fewn y caeadle agoriadau llydan ym mhob talcen. Mae olion caeadle arall wedi goroesi i'r de-orllewin: iard goed oedd hon yn wreiddiol (coed o America oedd un o'r prif ddeunyddiau a fewnforiwyd i Gaernarfon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg). Mae'r waliau terfyn yn cynnwys amryw o dechnegau caregwai (y tybir eu bod yn adlewyrchu cyfnodau o atgyweirio ac ailadeiladu), a cheir olion nifer o adeiladau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yng nghorneli'r iard.

Datblygwyd warysau mewn patrwm llinellol nodweddiadol, gan redeg mewn cyfres o linellau paralel rhwng y dociau a Ffordd Balaclafa. Dim ond un o'r warysau hyn sydd i'w gweld bellach. Fe'i hadeiladwyd ar ddau gam o leiaf, ac mae ganddi furiau rwbwl gyda gwaith pwyntio



bwtresog. Mae gan ffryntiad Ffordd Balacafa haprwbwl amlonglog nodweddiadol. Mae'r warws yn ffinio â'r doc sych, ond yn cyflwyno'r hyn sydd bron yn ddrychiad dall i'r dociau, sy'n awgrymu y bu'n fenter annibynnol.

*Mae gorffeniad
caregwaith traddodiadol
i'w weld o hyd ar warws
wrth ymyl y dociau.*

Mae'r archifau ac adeilad y maes parcio bellach ar safle'r iard goed a'r pwll, ac yn parchu'r ffiniau cynharach hyn. Collwyd y patrwm datblygu llinellol gwreiddiol i'r gogledd-ddwyrain. Adeiladwyd y Galeri ar orweddiad gwahanol, yn groes i'r patrwm gwreiddiol.



Bu Doc Fictoria, sef y datblygiad newydd a gwblhawyd yn ddiweddar ar ochr ogleddol y doc, yn ychwanegiad dadleuol i'r treflun. Pryderwyd ynghylch ei effaith ar leoliad Safle Treftadaeth y Byd y castell a muriau'r dref: mae hwn yn safle sensitif lle mae rhagoriaeth ddylunio a sylw gofalus i raddfa a màs o'r pwysigrwydd mwyaf. Yn llai o faint na'r cynigion gwreiddiol, a chyda'i fâs wedi'i leihau rhywfaint gan y dewis o ffurfiau a deunyddiau, mae'r cynllun yn osgoi gwneud niwed gormodol i gymeriad a lleoliad y castell a'r dref gaerog, ond mae'r adeilad yn dal i ddominyddu ardal y dociau. Mae graddfa a manylion syml y Galeri, gan fabwysiadu dehongliad modern o arddull gynhenid hanesyddol ddilys y dociau, yn fodel mwy priodol ar gyfer datblygu yma.

*Mae ffryntiad y stryd
yn defnyddio gorffeniad
mwy addurniadol.*



Ar ochr de'r doc, adeiladwyd Magnelfa Wrth Gefn y Llynges Frenhinol (adeilad y clwb cychod hwylio bellach) rhwng 1872 a 1888.

*Nid yw datblygiadau
modern bob amser wedi
adlewyrchu graddau a
gorweddiad datblygiadau
cynnar ar hyd y dociau.*

Mae enghreifftiau pwysig o offer y dociau i'w gweld o hyd — pont siglen, bolardiau a chraen — a dylid naill ai eu cadw yn y fan a'r lle, neu eu symud mewn modd sensitif o fewn yr ardal gyfagos.



*Chwith pellaf: Y Galeri,
dehongliad modern
o arddull gynhenid
y dociau.*

Chwith: Doc Fictoria.

3 Y Cei Llechi

Cefndir Hanesyddol

Datblygwyd y ceiau ar hyd glannau Seiont mewn ymateb uniongyrchol i dwf chwarela llechi yng nghefnwlad Caernarfon ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n bosibl y dechreuwyd y gwaith datblygu yn dilyn Deddf Seneddol i wella'r harbwr, a basiwyd ym 1793, ond mae'n fwy tebygol y dechreuwyd y gwaith yn dilyn Deddf bellach ym 1809. Er iddynt gael eu datblygu fesul cam (er enghraifft ceir cyfeiriadau at welliannau a wnaed ym 1817), roedd y ceiau wedi'u cwblhau i raddau helaeth erbyn i John Wood lunio ei fap ym 1834. Gan ymestyn mor bell â safle Gwaith Haearn yr Union, datblygwyd y Cei Llechi gan Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon, yr adeiladwyd ei swyddfeydd ym 1840. Roedd hyn mewn cyferbyniad â phorthladdoedd llechi'r Penrhyn a'r Felinheli, a ddatblygwyd gan berchenogion y chwarelau — sef ystadau'r Penrhyn a'r Faenol yn y drefn honno. Fodd bynnag, ymddengys i'r ardal i fyny'r afon, y tu hwnt i Waith Haearn yr Union, gael ei datblygu'n annibynnol ar dir a brydleswyd oddi wrth yr

Dde uchaf: Mae swyddfeydd Ymddiriedolaeth yr Harbwr yn arwydd o rôl amlwg y Cei Llechi yn ffyniant y dref.

Isod: Y Cei Llechi, porthladd gweithiol yng nghysgod tai trefol cain, fel y darluniwyd gan Hugh Hughes, tua 1850 (Carnarvon Castle and Town, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Arglwydd Newborough. Atgyfnerthwyd buddsoddiad yn y porthladd llechi penodol gan ddyfodiad Rheilffordd Nantlle — sef menter annibynnol gan berchenogion nifer o chwarelau llechi yn ardal Nantlle/Llanllyfni — a agorwyd ym 1828. Disodlwyd y rheilffordd hon gan Reilffordd Sir Gaernarfon, a gwblhawyd ym 1870. Roedd y Cei Llechi yn gwasanaethu nifer o chwarelau annibynnol, ac er mai llechi oedd y prif nwydd, cludwyd nwyddau eraill yno hefyd ar longau. Datblygwyd nifer o fentrau law yn llaw â'r brif fasnach, ac ymhlith y rhai nodedig roedd Gwaith Haearn yr Union (de Winton) a Gwaith Haearn Brunswick.





Sefydlwyd Gwaith Hearn yr Union tua 1844 ar dir a brydleswyd oddi wrth yr Arglwydd Newborough. Llenwyd cei neu ddoc sych annibynnol ar dir yr Arglwydd Newborough, ac adeiladwyd ar ei ben wrth i Waith Hearn yr Union ddatblygu ar ôl 1844. Ymhlith y contractau gwaith cynnar roedd cynhyrchu cydrannau ar gyfer Pont Britannia a hytrawstiau ar gyfer Dau Dŷ'r Senedd. Ymunodd J.P. de Winton â'r cwmni ym 1854. Arbenigai'r cwmni mewn cynhyrchu peiriannau ar gyfer y diwydiant chwarela llechi, yn cynnwys locomotifau, wagenni, trofyrddau, offer weindio, byrddau llifio a pheiriannau pwyso. Erbyn 1889 roedd yn safle helaeth a oedd yn cynnwys sawl rhes o warysau a



gweithdai (yr unig grŵp a welir hyd heddiw yw'r adeiladau a feddiannir bellach gan Gwynedd Tyres), siop adeiladu (yn gyflawn i raddau helaeth) a swyddfa ac ystafell arddangos (cyflawn). Caewyd y gweithfeydd ym 1901–02.

Ceid nifer o fentrau llai i fyny'r afon o safle Gwaith Hearn yr Union: gweithfeydd llechi, odyrau calch a gweithfeydd calch, ac ierdydd pren. Roedd gan bob un o'r rhain (ac eithrio un o'r ierdydd pren) fynedfa uniongyrchol i lanfa. Roedd y Cei Llechi ei hun i lawr yr afon o'r gwaith hearn. Mae map yr Arolwg Ordnans o 1889 yn dangos bod yr ardal wedi'i rhannu'n gyfres o gaeadleoedd, gyda phob un wedi'i osod i chwarel unigol. Yn wreiddiol arweinai esgynfeydd o'r ierdydd hyn i'r llongau, ond roedd pob esgynfa namyn dwy wedi'u llenwi i mewn erbyn 1889. Rhannwyd y caeagleoedd gan waliau, y mae rhai ohonynt i'w gweld o hyd.

Rhwng y rheilffordd a'r arglawdd islaw'r Maes a Theras Segontiw gorwedda i ardal ar wahân a rannwyd yn gyfres o leiniau bach, a osodwyd allan ym 1829 fwy na thebyg. Ym 1834, ierdydd mwyn copr a glo oedd y rhain (allforiwyd mwyn copr o Gaernarfon, a mewnforywyd glo). Ym 1840, adeiladwyd Swyddfeydd yr Harbwr ar draws ffin ogledd-orllewinol y safle, a oedd hefyd yn cynnwys fforddri erbyn 1844. Yn raddol datblygwyd ffryntiad yr 'ynys' hon a oedd yn edrych dros y Cei Llechi gyda chyfres o adeiladau, yn cynnwys swyddfeydd cwmnïau'r chwarelau ac asiantau annibynnol y fasnach lechi.

Potensial Archeolegol

Gellir olrhain dilyniant y gwaith o adeiladu ac atgyweirio muriau'r cei yn y newidiadau yn arddull yr adeiladwaith. Mae ardal y Cei Llechi yn dir

Chwith uchaf: Mae siop adeiladu Gwaith Hearn yr Union yn arwydd o ddiwydiant lleol pwysig.

Uchod: Y Cei Llechi, a dyfodd mewn ymateb i alwadau'r fasnach, ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg: (Carnarvon Slate Quay and Harbour, Gwasanaeth Archifau Gwynedd).

Mae patrwm amrywiol adeiladau ar y cei yn adlewyrchu'r mentrau niferus a weithredai yma.

Mae cynllun gwreiddiol y Cei Llechi fel cyfres o ierdydd yn parhau yn y patrwm modern o ddefnyddio gofod.

Aliniad nodweddiadol yr adeiladau bach ar safle'r 'ynys' ar y cei, a ddangosir yn yr engraffiad hwn gan Newman and Co. (Caernarvon Castle, Llyfrgell Genedlaethol Cymru).



Arddull ddiwydiannol gynhenid y tu ôl i safle'r 'ynys'.

gwneuthuredig, a gwyddys i rywfaent o'r deunydd o'r gwaith ddod o wastatáu'r Maes ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Claddwyd olion y lled rheilffordd safonol a osodwyd ym 1870 dan y wyneb.

Byddai cofnodi'r adeiladau sy'n goroesi yn y caeadleoedd gwaith amrywiol a feddiannai safle'r 'ynys' a ffyrntiad yr afon yn helpu i gadarnhau dilyniant y gwaith datblygu, a gall ddatgelu tystiolaeth ar gyfer dealltwriaeth fanylach o'r defnydd o adeiladau. Dymchwelwyd nifer o'r adeiladau a oedd yn gysylltiedig â Gwaith Haearn yr Union eisoes, ond gall waliau terfyn ac arwynebau llawr sy'n goroesi gadw manylion o ddiddordeb archeolegol y dylid eu cofnodi wrth i'r cyfle godi.



Nodweddion Adeiladu

Adlewyrchir strwythur trefniadol y ceiau yn uniongyrchol yn y nodweddion adeiladu. Prydlesodd mentrau unigol rannau o'r cei at eu hanghenion busnes eu hunain: llogodd chwarelau llechi gaeadloedd ar gyfer storio llechi yn yr ardal agored islaw Teras Segontiw ac, ynghyd â chwmnïau eraill, roeddent yn gosod ierdydd bach ar safle'r 'ynys' y tu ôl i'r cei. Sefydlodd cyfres o gwmnïau eu safleoedd hynod eu hunain i fyny'r afon. Roedd angen nodi ffiniau pob un o'r rhain mewn rhyw ffordd, a nodweddir yr ardal o hyd gan gyfres o gaeadloedd ar wahân. Mae'r cynllun hanesyddol hwn i'w weld yn glir





Y Maes — y tu allan i'r muriau, ond canolbwynt bywyd y dref.

yn y waliau terfyn sy'n goroesi, ac yn strwythur datblygiadau mwy diweddar. Cyfyngir yr adeiladau sy'n goroesi o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i ardal yr 'ynys' ar y Cei Llechi ei hun a'r warws y tu ôl, a Gwaith Haearn yr Union (de Winton) a'r safle cyfagos.

Ar y Cei Llechi, mae'r adeiladau yn ierdydd safle'r 'ynys' mor amrywiol ag yr oedd eu tenantiaethau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn amlwg adeiladwyd rhai ohonynt fel adeiladau arddangos, ac er eu bod yn fach, ceir rhywfaint o gywreinrwydd o ran eu ffasadau — llechi, rendrad sgrafello a gwaith brics amryliw. Mae gan adeiladau eraill — yn arbennig y rheini y tu ôl i'r safle — gymeriad mwy diwydiannol cynhenid, gan ddefnyddio cerrig rwbel a haearn gwrymiog yn bennaf. Adeiladwyd y warws mawr yn erbyn y llethr islaw'r Maes rhwng 1834 a 1844 ar gyfer Morgan Lloyd a'i Fab, masnachwyr gwinoedd a gwirodydd. Mae ansawdd uchel ei garegwaith yn arwydd o werth ei gynnwys gwreiddiol.

Mae Gwaith Haearn yr Union (de Winton) yn cynnwys arddulliau amrywiol, o ffurfioldeb adeilad y swyddfa a manylion nodweddiadol y siop adeiladu, i arddull ddiwydiannol gynhenid garwach yr adeiladau yn yr iard y tu hwnt.

4 Y Maes

Datblygiad Hanesyddol

Mae'n debygol mai'r Maes oedd beili'r castell Normanaidd a adeiladwyd ym 1090 yn wreiddiol. Cipiwyd y castell gan y Cymry ym 1115, a thbyir i'r beili gael ei ddefnyddio fel gardd llys y tywysogion Cymreig. Pan gynlluniwyd y castell a'r dref Edwardaidd, cadwyd yr ardal fel marchnad y dref, ac arhosodd felly tan iddi gael ei hail-greu fel sgwâr ffurfiol y dref pan ddechreuodd Caernarfon ehangu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y prosiect adeiladu mawr cyntaf yma oedd y teras ar ochr ogleddol y sgwâr, a adeiladwyd erbyn 1817. Dilynwyd hyn gan y Castle Hotel a'i deras cysylltiedig tua 1830, ac adeiladwyd ochr ddwyreiniol y sgwâr hefyd erbyn 1834. Fel rhan o'r paratodau i arwisgo Tywysog Cymru ym 1911 dymchwelwyd pen gogleddol teras y Castle Hotel gyferbyn â Phorth y Frenhines. Ni chwblhawyd pen deheuol y teras tan y 1990au.

Potensial Archeolegol

Roedd y Maes yn bodoli cyn sefydlu'r castell a'r dref Edwardaidd a'r defnydd dilynol fel y brif farchnad, ond dangosodd gwaith archeolegol yn 2008 ddyddodion naturiol uwchdor a chreigwely ar draws llawer o'r ardal, gan awgrymu mai prin yw'r potensial. Dylid ystyried cofnodi adeiladau ac yn enwedig ymchwilio i unrhyw seleri.

Dde: Mae'r teras hwn yn cyflwyno ffryntiad ffurfiol i'r Maes.

Dde pellaf: O'r Cei Llechi, mae'r teras yn nodwedd amlwg o'r treflun, ond sydd eto'n cael ei ddiystyru.



Deunyddiau cymysg mewn wal iard ddomestig y tu ôl i'r Cei Llechi.

Nodweddion Adeiladu

Mae'r teras sy'n cynnwys rhifau 32–37 ar ochr ddeheuol y sgwâr yn taflu cysgod hir dros y glannau. Mae iddo ffryntiad pensaernïol boneddigaidd a gynhaliwyd yn dda i'r sgwâr, ond nid yw'r cefn, er ei fod i'w weld yn amlwg o'r ceiau, mewn cyflwr da: mae ei orffeniad rendro yn addasiad o'r ugeinfed ganrif i raddau helaeth, a cheir olion esgeulustod. Rhoddwyd ierdydd i'r adeiladau ar lefel y cei: mae eu waliau terfyn yn cynnwys deunyddiau amrywiol, yn cynnwys clogfeini o'r traeth. Mae olion stablau cynharach ac ati i'w gweld o hyd yn rhai o'r garejys presennol. O'r lefel is, ymddengys fod yr estyniad modern i'r teras yn rhy fawr. Ar gornel isaf y ffordd sy'n cysylltu'r Maes a'r cei, saif Siop Rhoddion y Castell ar lain gornel a oedd yn bodoli ym 1834, ond nas datblygwyd tan tua 1850. Er ei fod yn fach, mae'n foneddigaidd iawn, gyda ffenestri codi, rendrad sgrafello a tho soffistigedig.



Mae patrwm yr adeiladau allan bach a'r iardiau yn cystadlu am sylw gyda datblygiadau modern islaw tai sy'n wynebu'r Maes.



5 Teras Segontiwm a Thre'r Gof

Mae meintiau gwahanol yn nodweddiadol o'r treflun islaw'r Maes.

Cefndir Hanesyddol

Mae'n debygol mai caeau oedd yr ardal hon tan tua 1824, pan gyfeirir at werthu darn o dir o'r enw Caemaesglas ar gyfer gwaith adeiladu. Awgryma grid rheolaidd y strydoedd y cynlluniwyd y tir ar gyfer gwaith adeiladu gan y perchennog gwreiddiol, ond awgryma natur amrywiol y gwaith adeiladu fod yr ardal wedi'i datblygu gan fwy nag un perchennog. Ceir cyfeiriad at y defnydd o glybiau adeiladu neu





*Chwith ac isod:
Ffurfioldeb pensaernïol
gyda manylion
amrywiol:
Teras Segontiw.*

glybiau arian er mwyn mynd â'r maen i'r wal. Roedd Stryd Garnon a Stryd Capel Joppa yn ddatblygiadau ychydig yn ddiweddarach (rhwng 1834 a 1844) ar lain arall o dir a oedd yn eiddo i Richard Garnons.

Potensial Archeolegol

Pan nad yw tarfu diweddarach wedi symud dyddodion, efallai fod tystiolaeth o weithgarwch canoloesol ac ôl-ganoloesol y tu allan i furiau'r dref, a hyd yn oed weithgarwch Rhufeinig ar wahân.



Nodweddion Adeiladu

Mae Teras Segontiw yn ddatblygiad ffurfiol o dai trefol mawr a leolwyd i gael golygfa dda ar draws afon Seiont. Wedi'i gynllunio'n ffurfiol, gyda manylion pensaernïol cyffredin, ceir fodd bynnag rywfaent o amrywiaeth o ran cynllun a gorffeniad y tai. Gall hyn fod oherwydd y gwnaed y gwaith adeiladu gan nifer o bobl, yn gweithio o fewn cynllun cyffredinol a luniwyd gan berchennog gwreiddiol y tir, er bod y newidiadau gwahanol wedi cyflwyno elfen o amrywiaeth — er enghraifft ceir manylion da o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Gwelir cymysgedd o rwbel a briciau yn y cefn, ond rendrwyd y ffyrntiad boneddigaidd gan weddillion cerrig nadd sgrafello. Mae'n debygol mai hwn oedd y gorffeniad gwreiddiol — gallai'r plastr garw gyda rhwymadau rendrad llyfn ar rai o'r tai fod yn addasiad o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'r grisiau llechfaen o ansawdd uchel yn arwydd o'r sbardun economaidd ar gyfer datblygiad y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ceir rhai waliau terfyn nodweddiadol yn yr ardal, a godwyd o gymysgedd garw o gerrig, yn cynnwys cerrig o'r afon.



*Ffasâd carreg nadd
anarferol yn Nhre'r Gof.*



*Haprwbel y tu ôl i Deras
Segontiw, a cherrig
o'r afon yn y wal derfyn.*



Uchod: Mae Coed Helen wedi parhau i fod yn wahanol iawn i'r dref.

Dde: Adeiladau cynhenid bach yn agos i'r lan.

6 Coed Helen

Cefndir Hanesyddol

Tan ddatblygiad y Cei Llechi ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oedd gan lan dde-orllewinol afon Seiont unrhyw gysylltiad gwirioneddol â'r dref. Roedd y tir yn eiddo i ystâd Coed Helen, yr oedd ei pharc yn ymestyn i lawr at yr afon, a'r dystiolaeth gyntaf o gysylltiad â'r dref yw Aber Ferry House, a adeiladwyd ym 1822. Adeiladwyd pont siglen yma ym 1900, ond fe'i dymchwelwyd ym 1969 pan adeiladwyd y bont bresennol.

Ym 1834 safai grŵp bach o adeiladau ar ben Ffordd Coed, sef y lôn sy'n arwain at y lan — fe'u disgrifiwyd fel tai cychod ym 1844, a cheid cei bach yma erbyn 1888, gerllaw iard y seiri cychod. Mae'r cei i'w weld o hyd, yn ogystal â sied cychod a siop siandler. Sefydlwyd y parc presennol (a phwll nofio awyr agored ar un adeg) ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.



Potensial Archeolegol

Byddai'n werth cofnodi olion y ceiau a'r strwythurau sy'n gysylltiedig â'r hen iard gychod. Mae geomorffoleg yr ardal, ac olion cofnodedig y dirwedd o'i hamgylch, yn awgrymu ei bod yn bosibl iawn bod tystiolaeth yn ymwneud â gweithgarwch cynhanesyddol neu Rufeinig yma.



Nodweddion Adeiladu

Saif y cei cerrig a'r siediau pren a haearn gwrymiog cynhenid mewn cyferbyniad â chymeriad bonheddig adeilad y fferi.

Mae nodweddion gwledig pendant y lan hon o'r afon yn gyferbyniad dramatig ag ardal drefol ac adeiledig y dref gyferbyn.

Uchod: Mae afon Seiont bob amser wedi gwahanu'r dref oddi wrth gefn gwlad i bob pwrpas.

Mae maint bach y cei yng Nghoed Helen (chwith uchaf) yn cyferbynnu â graddfa ddiwydiannol y Cei Llechi (chwith).

Glannau Seiont a Menai: Paramedrau Dylunio ar Gyfer Ailddatblygu

Nodweddion Cyffredinol

Roedd glannau Caernarfon yn ardaloedd gweithio a masnachu. Efallai fod datblygiadau preswyl yn edrych drostynt, ond nodweddion syml a garw sydd gan y ceiau yn eu hanfod. Dylai unrhyw waith ailddatblygu o ran yr ardaloedd hyn osgoi boneddigo neu dlysu — byddai manylion preswyl boneddigaidd yn ymddangos yn estron ac yn groes i'r datblygiad hanesyddol a'r hanes cymdeithasol a amlinellir yn yr astudiaeth hon.

Er ei bod yn anochel y caiff llawer o'r strwythurau presennol ar hyd y ceiau eu dymchwel fwy na thebyg, gan nad yw ansawdd eu gwaith adeiladu na'u cyfleusterau yn ddigonol, dylai'r egwyddor o achub ac aildddefnyddio'r nodweddion a'r deunyddiau gael ei derbyn mewn unrhyw gynigion

o'r cychwyn. Byddai hyn yn helpu i wneud y datblygiad newydd yn rhan o'r treflun, ac yn ymgorffori'r egwyddor o gynaliadwyedd. Dylid nodi deunyddiau megis cerrig a llechi, ac eitemau o ddiddordeb hanesyddol megis porth haearn Gwaith Haearn Brunswick, cyn gynted â phosibl wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau, a dylai'r broses o'u hachub a'u haildddefnyddio yn ofalus gael ei chynnwys mewn unrhyw ganiatâd cynllunio a manylebau contractau. Dylid gwneud gwaith cofnodi archeolegol manwl cyn dymchwel unrhyw beth.

Mathau o Ddatblygiadau

Nodweddir glannau Menai, i'r gogledd o'r dref, yn bennaf gan strwythurau diwydiannol mawr a gynhwysir mewn cyfres o gaeadloedd. Mae

Lleolir adeiladau diwydiannol mewn cyfres o gaeadloedd ar hyd ymyl dŵr y Cei Llechi.



cydnabod hyn wrth ddylunio datblygiadau modern yn un o'r ffactorau allweddol o ran llwyddo i wneud y datblygiad yn rhan o'r treflun. Dylai unrhyw gynigion ailddatblygu pellach yn yr ardal hon geisio dilyn y patrwm datblygu gwreiddiol, lle aliniwyd adeiladau i fynd yn ôl o ymyl y cei, yn hytrach nag yn baralel iddo.

Mae glannau Seiont yn fwy amrywiol, o ran y mathau o ddatblygiadau a'r dirwedd. Mae safle'r 'ynys' ar ben gogleddol y Cei Llechi yn glwstwr dwys o strwythurau bach unigol, a nodweddir gan uchderau, deunyddiau a gorweddiadau gwahanol. Mae hyn yn adlewyrchiad uniongyrchol o sefydlu'r ardal hon fel cyfres o leiniau neu gaeadloedd bach. Mae angen i unrhyw waith ailadeiladu yma barhau â'r natur hanfodol hon ond, hyd yn oed gan dderbyn yr egwyddor o aildddefnyddio deunyddiau a achubwyd, gellir cyflawni hyn heb orfod atgynhyrchu arddull unrhyw gyfnod penodol. Mae gan ben deheuol y Cei Llechi gymeriad gwahanol ac mae'n cynnwys, yn gyffredinol, gyfres o gaeadloedd. Mae'r rhain wedi'u hamgylchynu gan waliau cerrig cymharol uchel ac maent yn cynnwys nifer o strwythurau syml, gyda mynediad i'r stryd a ffryntiad i'r afon gan bob caeagle. Mae gan y math hwn o ddatblygiad amrywiaeth a

hyblygrwydd a allai ffurfio'r modiwl sylfaenol ar gyfer ailadeiladu ar hyd glan ddwyreiniol afon Seiont. Prin yw'r adeiladau rhestredig ar hyd y rhan hon o'r afon — sef Swyddfeydd yr Harbwr, Adeilad Cydosod Gwaith Haearn yr Union a Swyddfeydd Gwaith Haearn yr Union yn unig — ac ni ddylai fod unrhyw amheuaeth ynglŷn â'u cadw a'u hymgorffori mewn unrhyw gynigion ailddatblygu. Ond wrth ystyried y posibilrwydd o glirio'r rhan fwyaf o'r gweddill o Stryd Santes Helen, dylid derbyn bod sicrhau caniatâd cynllunio llawn a gosod contract ailadeiladu yn rhagofynion ar gyfer dechrau unrhyw waith dymchwel.

Nodwyd y nodweddir y glannau gan strwythurau cynhenid a diwydiannol sy'n dra syml ar y cyfan. Eithriad yn hytrach na'r rheol yw effeithiau addurniadol. Mae'r adeiladau presennol yn darparu patrwm o fanylion a deunyddiau a ddylai fod yn sail i waith ailddatblygu.

Mae gan bob un o'r glannau ei chymeriad ei hun, ond gyda'i gilydd maent yn gyfres bwysig o leoedd cysylltiedig. Dylai dyluniad cyhoeddus adlewyrchu cymeriad unigryw pob ardal, yn ogystal ag annog y cysylltiad rhyngddynt.



Mae adeiladau bach â nodweddion amrywiol yn llenwi safle'r 'ynys' ar y Cei Llechi.

Patrwm a Deunyddiau Dylunio

Ceir amrywiaeth sylweddol o ran uchder, ond tri llawr yw'r nifer fwyaf, ac mewn rhai ardaloedd (megis safle'r 'ynys' ar y Cei Llechi) bydd llai yn briodol. Ar y cyfan mae'r adeiladau yn cynnwys cydrannau bach, gyda gwrymiau yn aml wedi'u gosod ar ongl o 90 gradd. Mae'r rhan fwyaf o'r toeon yn rhai llechi ac yn dalcennog, gydag ymylon lled-fargodol neu gyfwyneb. Prin iawn yw'r toeon clip. Byddai nenoleuadau modern yn ymddangos yn estron mewn strwythurau diwydiannol o'r fath, ond mae patrymau dylunio diwydiannol traddodiadol yn cynnig sawl ateb ar gyfer gwydr ar lefel y to — gwrymiau gwydr, gwrymlusernau esgynedig a gwydr, a hyd yn oed rhannau o doeon sy'n wydr i gyd. Prin yw nodweddion toeau megis simneiau, awyrellau a thyredau, ond maent yn ychwanegiadau neu'n nodau defnyddiol os oes eu hangen. Ar y cyfan codwyd y muriau o garegwaith rwbel, er ceir rhai enghreifftiau pwysig o fricwaith, coch fel arfer. Yn aml defnyddir brics ar gyfer y congffeini i agoriadau ffenestri mewn muriau rwbel. Fel arfer codwyd waliau terfyn gan ddefnyddio cerrig rwbel, weithiau wedi'u gwyngalchu neu eu paentio. Ceir rhai muriau ag arwyneb llechi, yn y traddodiad cynhenid lleol, a gwelir dalennau metel amlinelllog fel cladin ar doeon a muriau allanol. Hefyd defnyddiwyd rendrad calch fel gorffeniad cymharol foneddigaidd ar ben gogleddol afon Seiont, lle roedd Swyddfeydd yr Harbwr a adeiladwyd gan ddefnyddio cerrig nadd yn cyfleu naws cywrain i'w efelychu. Yn draddodiadol nid oedd rendradau byth yn bargodi allan dros ben agoriadau nac ar sylfeini muriau, a dylid osgoi manylion modern fel y rhain. O ran addurno, defnyddir lliwiau tawel yn bennaf. Dylid defnyddio'r patrymau o orffeniadau waliau yn ofalus — ni ddylid cymysgu sawl gorffeniad gwahanol ar yr un adeilad, ond yn hytrach bwysleisio ac atgyfnerthu amlygrwydd a symrlrwydd y clystyrau o strwythurau drwy gyfyngu ar gyfosodiad deunyddiau. O ran drysau a ffenestri, rydym wedi nodi y byddai manylion domestig bwriadol yn estron i'r ceiau. A byddai arddulliau cyfnod mursennaidd yn gamgymeriad

yma. Mae'n debygol mai dull syml, modern ac effeithlon fyddai orau.

Ni fydd adeiladau sy'n mynnu tynnu sylw atynt hwy eu hunain yn briodol ar lannau Seiont na Menai. Mae'r castell yn darparu golygfa ddigon dramatig yn yr ardal hon. Felly nid cyfle ar gyfer dylunwyr difa mohono. Craffter sydd ei angen yma, a ategir gan werthfawrogiad o bwysigrwydd y ceiau yn natblygiad Caernarfon. Cymeriad presennol y glannau fydd yn sbardun i adfywio'r ardal yn llwyddiannus.

Datganiad Pwysigrwydd

Bu glannau Caernarfon yn rhan annatod o ffyniant y dref drwy gydol ei hanes. Mae'n bosibl y bu gan y Rhufeiniaid harbwr yma — yn sicr roedd anheddiad cynnar y Cymry yn cynnwys porthladd. Roedd llwyddiant y dref ganoloesol yn dibynnu i raddau helaeth ar ei lleoliad, gan roi iddi afon weithiol a chysylltiadau masnach hanfodol. Elwodd y dref ar y lleoliad ffafriol hwn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ailsefydlu ei hun fel porthladd ar gyfer y diwydiant llechi, a ffynnu ac ehangu fel tref sirol hyderus.

Rhoddodd y safle penrhyn wrth gymer dwy afon ac Afon Menai lannau helaeth i'r dref, a ddefnyddiwyd at ddibenion gwahanol ar gyfnodau gwahanol yn ei hanes. Glannau Menai oedd y cei gwreiddiol, a adfywiwyd fel promenâd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hefyd geiau cynnar ar hyd afon Cadnant, a oedd yn afon weithiol a yrrai felinau'r dref. Ond adeiladwyd harbwr newydd ar draws ei haber yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a daeth Cadnant yn afon goll Caernarfon. Yn y cyfamser, ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, defnyddiwyd glannau afon Seiont am y tro cyntaf, yn dilyn

sbardun gweithgarwch diwydiannol — chwarela llechi a chloddio copr — yng nghefnwlad y dref. Mae gan bob rhan o'r glannau gymeriad nodweddiadol, sy'n tynnu sylw at elfennau gwahanol yn hanes y dref. Mae'r ceiau gwreiddiol, a ailadeiladwyd fel promenâd, yn dilyn muriau'r dref ac yn wynebu'r Fenai, a oedd yn cynrychioli'r ddolen gyflenwi ar gyfer y dref ganoloesol, ac yn rhoi golygfa bictiwresg i ymwelwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y Cei Llechi oedd terfyn llinell gyflenwi arall a arweiniai o chwarelau llechi Dyffryn Nantlle. Rhwng y rheilffordd a'r glannau, meddiannai mentrau bach gyfres o leoedd a ffurfiwyd yn ofalus, yng nghysgod datblygiad maestrefol urddasol. Amgylchynwyd y dociau helaeth a sefydlwyd i'r gogledd o'r dref gan fentrau preifat eraill, ond ar raddfa fwy.

Mae'r glannau yn allweddol i feithrin dealltwriaeth o sut y cynhaliwyd Caernarfon drwy ei hanes hir, ac maent yn cofnodi penodau gwahanol yn hanes y dref yn glir. Gallent unwaith eto chwarae rôl amlwg yn ei ffyniant, gan ychwanegu pennod newydd tra'n cynnal cysylltiad diriaethol â hanes dynamig 'the first town in North Wales.'¹⁸

Mae glannau afon Seiont ac Afon Menai yn dominyddu'r dref a'r castell hanesyddol.



Ffynonellau Dewisol

- R. Abbott, 'Chronicles of a Caernarvon Ironworks', *Transactions of the Caernarvonshire Historical Society*, Cyfrol 17 (Caernarfon 1956).
- Maurice Beresford, *New Towns of the Middle Ages* (Caerloyw, 1988).
- J. I. C. Boyd, *Narrow Gauge Railways in North Caernarvonshire, Vol. 1: The West* (Rhydychen, 1981).
- Bye-gones: Relating to Wales and the Border Counties 1907–08* (Croesoswallt).
- Cadw, *Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd, Cestyll a Muriau Tref Edward I yng Ngwynedd* (2004).
- The Cambrian Tourist Guide and Companion* (Llundain, 1813).
- Harold Carter, *The Towns of Wales: A Study in Urban Geography* (Caerdydd, 1965).
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, *An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire, Vol. 2, Central: The Cantref of Arfon and the Commote of Eifionydd* (Llundain, 1960).
- Y Parchedig J. Evans, *A Tour Through Part of North Wales in the Year 1798, and at Other Times*, (Llundain, 1802).
- Geralit Gymro, *Hanes y Daith Drwy Gymru, yn Gerallt Gymro*, (Cyfieithiad Cymraeg gan Thomas Jones) (Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1938).
- R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978).
- J. Hemingway, *Panorama of the Beauties, Curiosities and Antiquities of North Wales* (Llundain, 1835).
- D. Hopewell, *Hafan, Lon Parc, Caernarfon Watching Brief*, Gwynedd Archaeological Trust Report No. 249 (Heb ei gyhoeddi, 1997).
- Edmund Hyde Hall, *A Description of Caernarvonshire 1809–1811* (Caernarfon, 1952).
- Breuddwyd Macsen Wledig, Y Mabinogion*, (diweddariad gan Dafydd a Rhiannon Ifans), (Llandysul, 1980).
- W. H. Jones, *Old Karnarvon: A Historical Account of the Town of Carnarvon* (Caernarfon, 1882).
- E. A. Lewis, *The Medieval Boroughs of Snowdonia* (Llundain, 1912).
- Samuel Lewis, *A Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).
- M. D. Lobel, *Historic Towns: Maps and Plans of Towns and Cities in the British Isles, with Historical Commentaries, from Earliest Times to 1800, Vol. 1* (Llundain, 1969).
- Edward Parry, *Cambrian Mirror, or a New Tourist Companion Through North Wales* (Llundain, 1848).
- Thomas Pennant, *A Tour in Wales* (Llundain, 1778).
- Thomas Pennant, *A Tour Through North Wales in the Year 1798* (Llundain, 1802).
- Thomas Roscoe, *Wanderings and Excursions in North Wales* (Llundain, 1836).
- Ian Soulsby, *The Towns of Medieval Wales: A Study of their History, Archaeology and Early Topography* (Chichester, 1983).
- A. J. Taylor, 'The King's Works in Wales' yn H. M. Colvin (gol.), *The History of the King's Works, Vol. I* (Llundain, 1963).
- P. B. Williams, *The Tourist's Guide Through the County of Caernarvon* (Caernarvon, 1821).
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, *Ports and Harbours of Gwynedd: A Threat-Related Assessment* (Heb ei gyhoeddi, 2005).

Mapiau

John Speed, *Caernarvon both Shyre and Shire-towne with the Ancient Citie Bangor Described. Anno Domini 1610* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

John Wood, *Plan of the Town of Caernarvon From Actual Survey, 1834* (Gwasanaeth Archifau Gwynedd).

Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans, 1888 (1:2,500).

Ôl-nodion

- 1 *Breuddwyd Macsen Wledig, Y Mabinogion*, (diweddariad gan Dafydd a Rhiannon Ifans), (Llandysul, 1980).
- 2 *Bye-gones: Relating to Wales and the Border Counties 1907–08* (Croesoswallt).
- 3 R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978).
- 4 Giraldus Cambrensis, *Hanes y Daith Drwy Gymru, yn Gerallt Gymro*, (Cyfieithiad Cymraeg gan Thomas Jones) (Gwasg Prifysgol Caerdydd, 1938).
- 5 R. A. Griffiths (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales* (Caerdydd, 1978).
- 6 Thomas Pennant, *A Tour Through North Wales in the Year 1798* (Llundain, 1802).
- 7 Thomas Pennant, *A Tour Through North Wales in the Year 1798* (Llundain, 1802).
- 8 W. H. Jones, *Old Carnarvon: A Historical Account of the Town of Carnarvon* (Caernarvon, 1882).
- 9 *The Cambrian Tourist Guide and Companion* (Llundain, 1813).
- 10 Thomas Pennant, *A Tour Through North Wales in the Year 1798* (Llundain, 1802).
- 11 Edmund Hyde Hall, *A Description of Caernarvonshire 1809–1811* (Caernarfon, 1952).


- 12 *The Cambrian Tourist Guide and Companion* (Llundain, 1813).
- 13 Edmund Hyde Hall, *A Description of Caernarvonshire 1809–1811* (Caernarfon, 1952).
- 14 Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, *Ports and Harbours of Gwynedd: A Threat-Related Assessment* (Heb ei gyhoeddi, 2005).
- 15 J. I. C. Boyd, *Narrow Gauge Railways in North Caernarvonshire, Vol. 1: The West* (Rhydychen, 1981).
- 16 Y Parchedig J. Evans, *A Tour Through Part of North Wales in the Year 1798, and at Other Times* (Llundain, 1802).
- 17 *The Cambrian Tourist Guide and Companion* (Llundain, 1813).
- 18 *The Cambrian Tourist Guide and Companion* (Llundain, 1813).

1 Pob Ardal â Nodweddion




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

2 Pob Ardal â Nodweddion â Dynodiadau Amgylcheddol Hanesyddol




Atgynhrychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhrychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.


3 Ardal y Promenâd (Y Cei Canoloesol) (1)



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.




5 Ardal y Cei Llechi (3)




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.


6 Ardal y Maes (4)



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
 © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
 Rhif Trwydded 100021874.



8 Ardal Coed Helen (6)



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
 © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
 Rhif Trwydded 100021874.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw 2010.
ISBN 978-1-85760-278-4
Hawlfraint y Goron 2010.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ